# Become a Peer Inspector in the Initial Teacher Education sector

Ready to start your application? Skip ahead

## About the role

We're looking for senior leaders in Initial Teacher Education to become Peer Inspectors for the sector. These Inspectors are a key part of our inspection teams. If you qualify, you'll use your knowledge and skills to observe sessions, talk to learners, and scrutinise samples of their work. You'll have discussions with partnership leaders and staff, and use your observations to draft sections of the inspection report. Being peer inspector is a brilliant opportunity to see effective practice where it's happening every day, and to take these examples back to your provider to support improvement.

## Eligibility

**Peer Inspectors**

You'll be able to inspect through the medium of English and/or Welsh, and will:

- be a leader in ITE in a university provider, working at programme leader level or above; or
- be a senior leader / senior mentor in a lead school providing ITE in partnership with a university
- be in a permanent position
- have at least two years' leadership experience
- have at least five years' teaching experience
- have the support from your Vice Chancellor / Headteacher / Chair of Governors / Managing Director

You must have:

- recent and secure understanding of education matters, including education reform in Wales
- good communication and ICT skills
- ability to work to tight deadlines
- sound team working skills.

If you've applied to become a Peer Inspector before but you weren't invited to the training, we'd be happy to consider a new application if you feel your experience now meets our requirements.

## Selection and training

We'll be in touch about the outcome of your application by **w/c 24 July**. The training

will be available in English and Welsh, and will include:

- **Three days of online training**
  This includes oral and written assessments, which will comprise of:
  - One day online on **20 September**
  - Two days face-to-face on 11 and 12 October

- **Probationary inspection(s)**
  You'll be deployed on an assessed inspection, and the lead inspector will grade your performance. You need an A or B grade to pass

This training is totally free of charge.

## Disclosure and Barring Service check

If you're invited to the training, we'll ask you to have a Disclosure and Barring Service (DBS) check. It should be an enhanced certificate, no more than three years' old, and should include the child workforce category. You'll need this check to become a fully registered Additional Inspector or Peer Inspector.

## Deployment

We try to deploy additional and peer inspectors no more than three times a year. When you're on inspection, we'll pay a flat rate contribution to your provider for supply cover. We'll also cover your travel and subsistence costs.

Every year, we invite all inspectors to attend update training in the summer term; you must attend this training to carry on as an inspector. There's no charge for the training, but we're not able to pay supply cover or travel and subsistence costs.

## How to apply

**Online application form:** link
**Closing date:** 12 July, 4pm

Any fields marked with * are mandatory, so you won't be able to submit the form without entering a response for these fields. If they don't apply to you, please enter 'N/A'.

## Contact details

This pack contains all of the information you need about the role and the application process, but if you have any questions please email us at events@estyn.gov.wales or call us on 02920 44 6510.

We look forward to receiving your application.

# Dod yn Arolygydd Cymheiriaid yn y sector Addysg Athrawon

Ydych chi'n barod i ddechrau'ch cais? Neidiwch i'r cais

## Ynglŷn â'r rôl

Rydym yn chwilio am uwch arweinwyr mewn Addysg athrawon i fod yn Arolygwyr Cymheiriaid ar gyfer y sector. Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn rhan allweddol o'n tîm arolygu. Os ydych chi'n cymhwyso fel Arolygydd Cymheiriaid, byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth a'ch medrau i arsylwi sesiynau, siarad â dysgwyr, a chraffu ar samplau o'u gwaith. Byddwch yn cael trafodaethau gyda rhieni a staff addysgol, ac yn defnyddio'ch arsylwadau i ddrafftio adrannau o'r adroddiad arolygu. Mae bod yn arolygydd cymheiriaid yn gyfle gwych i weld arfer effeithiol lle mae'n digwydd bob dydd, a mynd â'r enghreifftiau hyn yn ôl i'ch darparwr i gefnogi gwelliant.

## Cymhwysedd

**Arolygwyr Cymheiriaid**

Byddwch yn gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg, a byddwch:

- yn arweinydd mewn darparwr addysg gychwynnol i athrawon mewn prifysgol, yn gweithio ar lefel arweinydd rhaglen neu'n uwch; neu
- yn uwch arweinydd / uwch fentor mewn ysgol arweiniol yn darparu addysg gychwynnol i athrawon mewn partneriaeth â phrifysgol
- mewn swydd barhaol
- yn meddu ar o leiaf ddwy flynedd o brofiad arwain
- yn meddu ar o leiaf bum mlynedd o brofiad addysgu
- yn cael cefnogaeth  eich Is-Ganghellor / Pennaeth / Cadeirydd y Llywodraethwyr / Rheolwr Gyfarwyddwr

Rhaid i chi feddu ar y canlynol:

- dealltwriaeth ddiweddar a chadarn o faterion addysg, gan gynnwys diwygio addysg yng Nghymru
- medrau cyfathrebu a TGCh da
- gallu i weithio yn unol â therfynau amser tynn
- medrau gwaith tîm cadarn.

**Arolygwyr Ychwanegol**

Rhaid i chi fod yn uwch arweinydd neu'n arweinydd canol yn eich sefydliad, neu wedi ymddeol o ysgol, prifysgol neu sefydliad perthnasol arall. Byddwch chi'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Saesneg a/neu'r Gymraeg, a bydd gennych chi:

- statws athro cymwys
- dealltwriaeth ddiweddar a chadarn o faterion addysg, gan gynnwys diwygio

addysg yng Nghymru
- medrau cyfathrebu a TGCh da
- profiad arwain fel arweinydd canol neu uwch arweinydd, neu  wedi gweithio ar lefel ranbarthol neu genedlaethol yn y sector addysg a hyfforddiant
- gallu i weithio yn unol â therfynau amser tynn
- medrau gwaith tîm cadarn.

Os gwnaethoch gais blaenorol i ddod yn Arolygydd Cymheiriaid, ond ni chawsoch wahoddiad i'r hyfforddiant, byddem yn hapus i ystyried cais newydd os ydych chi o'r farn bod eich profiad yn bodloni'n gofynion erbyn hyn.

## Dewis a hyfforddi

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chanlyniad eich cais erbyn 25 Medi.  Bydd yr hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yn cynnwys:

- **Tri diwrnod o hyfforddiant ar-lein**
  Mae hyn yn cynnwys asesiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a gynhelir ar **24-25 Tachwedd** ar Microsoft Teams
- **Arolygiad(au) prawf**
  Cewch eich defnyddio mewn arolygiad asesedig, a bydd yr arolygydd arweiniol yn graddio eich perfformiad.  Bydd angen i chi gael gradd A neu B i lwyddo.

Mae hyfforddiant i Arolygwyr Cymheiriaid yn rhad ac am ddim.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Os cewch eich gwahodd i'r hyfforddiant, gofynnwn i chi gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Dylai'r dystysgrif fod yn dystysgrif fanwl, nad yw'n fwy na thair oed a dylai gynnwys y categori gweithlu plant. Bydd angen y gwiriad hwn arnoch i fod yn Arolygydd Cymheiriaid â chofrestriad llawn.

## Defnyddio

Ein nod yw defnyddio arolygwyr cymheiriaid dim mwy na theirgwaith y flwyddyn. Pan gewch eich defnyddio mewn arolygiad, byddwn yn talu cyfraniad i'ch ysgol am athro cyflenwi, ar gyfradd safonol. Byddwn yn talu'ch costau teithio a chynhaliaeth hefyd.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob Arolygydd Cymheiriaid i fynychu hyfforddiant diweddaru yn ystod tymor yr haf; rhaid i chi fynychu'r hyfforddiant hwn er mwyn gallu parhau i fod yn arolygydd cymheiriaid. Ni chodir tâl am yr hyfforddiant, ond ni allwn dalu costau cyflenwi na chostau teithio a chynhaliaeth.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein:**  dolen
**Dyddiad cau:**  21 Medi, 4 y.p.

Byddwn yn cysylltu â phawb gyda chanlyniad eu cais erbyn **25 Medi**.
Mae unrhyw feysydd â * wrth eu hymyl yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os na fyddant yn berthnasol i chi, rhowch 'Dd/B'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych ragor o gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom: digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 44 6510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.